

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 21ain Tachwedd 2013

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Bowlio Dan Do Dinefwr, Rhydaman am 6.00 p.m.

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Karen Burch (KB) - Cadeirydd
Mark Hadley (MH) - Is-gadeirydd
Llew Thomas (LT)
Eric Davies (ED)
Rosemary Jones (RJ)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd

Ceri Daugherty – CNC (CD)
John Morgan – Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion (JM)
Ian Dutch – Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion (ID)

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Keith Morgan (KM)
Glyn Evans (GE)
David Stacey (DS)
Dr. Catherine Nakielny (CK)
Caroline Evans (CE)
Chris Rankin (CR)

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)

Phil Stone – CNC
Mike Scott-Archer - FfMLI PCBB
Marie George – CNC
Russell Jones – CNC
Eirian James – CSC

| | Y Cam Gweithredu |
|--|------------------|
| Eitem 1 Croeso – Estynnodd KB groeso i bawb i'r cyfarfod. | |
| Eitem 2 Ymddiheuriadau - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd. | |
| Eitem 3 Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 22^{ain} Gorffennaf 2013 Cafodd y cofnodion eu gwirio a derbyniwyd eu bod yn gywir yn amodol ar y cywiriadau isod i'r copi Saesneg: Eitem 6 'Ceri Davies' ac nid 'Ceri Dave' Eitem 11 – ychwanegu'r geiriau 'were added at' | |
| Eitem 4 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Awst 2013 <ul style="list-style-type: none">Cilffordd Banc Farm (15/31 ac 15/32), Llidiad Nennog, Brechfa. Dywedodd MH fod y llwybr caniatadol arall ar hyd ymyl y cae y darparwyd arwyddion ar ei gyfer gan Treadlightly yn cael ei ddefnyddio.Llwybr Beicio Dyffryn Aman – rhannodd JT y newyddion diweddaraf a ddarparwyd gan Simon Charles, Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd, CSC. Roedd yr elfennau o'r cynllun yr oedd CSC yn eu cyflawni yn datblygu'n dda ac yr oedd bron pob un o'r tiffeddianwyr wedi cytuno i werthu'r | |

| | |
|---|-----------|
| <p>darnau tir er mwyn caniatáu cwblhau rhan olaf y llwybr ar ochr Sir Gaerfyrddin o'r ffin sirol ym Mrynaman yng nghyffiniau Golchfa'r Forge/Heol Cwmgarw. Nodwyd bod arian ar gael eleni i gwblhau prynu'r tir (gyda'r gweddill yn cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd). Y nod, yn ddibynnol ar gael cyllid, oedd bod holl waith CSC yn cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014/15 ac yr oedd cynlluniau i roi sylw i hyrwyddo a marchnata'r llwybr yn y dyfodol. Dywedodd ED ei fod yn deall bod anhawster o ran dod i gytundeb â thirfeddiannwr y Forge ac y byddai'n rhaid i'r rhan honno o'r llwybr beicio ymuno â'r ffordd. Byddai JT yn cael diweddariad pellach erbyn y cyfarfod nesaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tir Mynediad Agored - Dywedodd CD, Cyfoeth Naturiol Cymru fod un apêl wedi dod i law yn Sir Gaerfyrddin yn gwrthwynebu tir a ychwanegwyd i'r Mapiau Mynediad ar gyfer Mynydd Pencarreg. Dywedodd fod CNC yn aros am gadarnhau dwy apêl arall ond ni chawsant wybod ble'r oedd y rhain. Yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n delio â'r apeliadau. Nododd fod 40 apêl yng Nghymru. Gofynnodd CD a oedd tîrfeddianwyr yn wynebu costau wrth gyflwyno apêl a gofynnodd beth oedd y gost i'r trethdalwr. Gofynnodd CD hefyd a oedd mynediad cyhoeddus ar Fynydd Pencarreg ar hyn o bryd. • Datblygiad Gorllewin Cross Hands - dywedodd KB fod y Datblygwr a CSC wedi cytuno mewn egwyddor i uwchraddio'r llwybr troed yn llwybr ceffylau mewn rhan arall o'r datblygiad er mwyn gwneud iawn am wyro llwybr troed cyhoeddus 33/24 y mae marchogion ceffylau'n honni iddynt ei ddefnyddio yn y gorffennol er mai statws llwybr troed oedd ganddo. • Cyfleusterau Cyhoeddus - Gofynnodd CD o Gyfoeth Naturiol Cymru a oedd cyfleusterau cyhoeddus wedi'u nodi ar y mapiau sy'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru. | <p>JT</p> |
| <p>Eitem 5 - Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - KB</p> <p>Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Teimlai KB fod hwn yn fater digon pwysig i gyfiawnhau naill ai sefydlu is-bwyllgor neu neilltuo cyfarfod i'w drafod. Gofynnodd KB a fyddai modd i ddogfen sylwadau yr oedd wedi'i llunio gael ei dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod nesaf</p> | <p>JT</p> |
| <p>Eitem 6 - Arian Grant Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru - JT</p> <p>Cadarnhaodd Ceri Daugherty, Cyfoeth Naturiol Cymru fod y Rhaglen Partneriaethau Cefn Gwlad sef cyllid grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt, yn rhan o adolygiad parhaus o drefniadau cyllido y byddid yn ei gwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon. Yn y cyfamser, byddai'r cyllid yn parhau ar 90% o'r lefel bresennol ym mlwyddyn ariannol 2014/15. Ni chafwyd eglurhad eto ynghylch Rhaglen Gyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Yn y cyfamser, byddai'n rhaid i Wasanaeth Cefn Gwlad CSC arbed hyd at £400,000 dros y tair blynedd nesaf.</p> | |

| | |
|---|---|
| <p>Eitem 7 Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol - KB</p> <p>Roedd KB yn chwilio am rywun i fod yn Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol yn ei lle ond roedd yn dymuno parhau i fod yn aelod o'r Fforwm. Roedd yn anodd i KB fynd i gyfarfodydd Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol, er enghraifft, oherwydd ymrwymadau gwaith. Roedd MH, yr Is-gadeirydd, hefyd yn cael trafferth mynd i gyfarfodydd oherwydd ymrwymadau gwaith.</p> | |
| <p>Eitem 8 Holiadur ynghylch Arferion Gweithio'r Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>Atgoffodd JT yr aelodau fod holiadur Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei drafod yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm a dywedodd y byddai'n sicrhau bod yr atebion yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau sef 30 Tachwedd.</p> <p>Roedd yr aelodau'n teimlo eu bod wedi colli cyswllt uniongyrchol â'r Cynghorwyr etholedig ers i'r Cyng. Clive Scourfield ymddeol a chadarnhaodd JT ei fod wedi estyn gwahoddiad i'r Cyng. Meryl Gravell (yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden) ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Byddai JT yn anfon manylion y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol at KB er mwyn iddi allu cysylltu ag aelodau a oedd heb ddod i gyfarfodydd yn ddiweddar.</p> | <p>JT</p> <p>JT/ KB</p> |
| <p>Eitem 9 Syniadau ynghylch Recriwtio i'r Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>Dywedodd Ian Dutch (Ysgrifennydd, Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion) eu bod yn dibynnu ar hysbysebion i recriwtio aelodau a'u bod, fel arfer, yn cael rhwng 20 a 25 o ymgeiswyr, gan gynnwys ailbenodi aelodau presennol.</p> <p>Dywedodd John Morgan (Cadeirydd, Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion) fod y Fforwm fel arfer yn cyfarfod yn Siambr y Cyngor. Roeddent o'r farn fod cynnal cyfarfodydd mewn un lleoliad yn effeithiol. Yn ogystal, roedd yr aelod Cabinet dros briffyrdd yn dod i'r cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae gan y fforwm Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Cyngor Sir sy'n cofnodi'r berthynas rhwng y ddwy ochr. Maent yn cyfarfod â'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu - Tai a'r Amgylchedd yn flynyddol ac yn cael cyfle i'w hannerch.</p> <p>Gofynnodd MH a ellid trefnu bod datganiad swyddogol i'r wasg yn cael sylw yng nghorff papur newydd lleol, yn ychwanegol at yr hysbyseb arferol am aelodau newydd. Dywedodd KB y byddai'n defnyddio Facebook hefyd i roi cyhoeddusrwydd ac i recriwtio.</p> | |

| | |
|--|--|
| <p>Eitem 10 Cynnal a Chadw Cilffyrdd/Ffyrdd Diddosbarth</p> <p>Rhoddodd MH wybod am adborth cadarnhaol ynghylch gwaith cynnal a chadw a wnaed gan CSC. Dywedodd fod 4-5 o lwybrau yn ardal Mynyddoedd Cambria yn Sir Gaerfyrddin wedi cael eu gwella ac roedd am i'w ddiolchiadau gael eu cofnodi.</p> <p>Mae Grŵp Cyswllt Defnyddwyr Cilffyrdd sy'n grŵp ar wahân yn cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol y Cyngor Sir, cynrychiolwyr o Uned Cefn Gwlad a Hamdden CSC, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae KB ac MH yn aelodau o'r grŵp hwnnw.</p> | |
| <p>Eitem 11 Polisïau CSC ynghylch Prosesu Gorchmynion – JT</p> <p>Nodwyd bod manylion polisïau CSC ynghylch delio â gorchmynion cyfreithiol a phennu'r blaenoriaethau ym mholisïau 13, 14 ac 16 o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Rhoddodd JT fanylion y meini prawf a oedd yn cynnwys blaenoriaethu gorchmynion pan fydd datblygiad ar fin cychwyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhoddwyd blaenoriaeth i orchmynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru. Mae 34 o Orchmynion neu Orchmynion Creu Llwybrau Cyhoeddus ffurfiol neu rai sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru sy'n aros am sylw ynghyd ag 85 o anghysonderau neu faterion y gall fod angen Gorchymyn arnynt. Mae 22 o geisiadau ffurfiol am Orchymyn Addasu Map Diffiniol yn aros i gael sylw ynghyd ag 89 o anghysonderau neu faterion anffurfiol y gall fod angen Gorchymyn arnynt.</p> | |
| <p>Eitem 12 Strategaeth Cerdded a Beicio CSC – JT</p> <p>Roedd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi cwblhau'i thaith drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1af Hydref. Daeth y Bil yn Ddeddf y Cynulliad ar 4ydd Tachwedd a bydd yn dod i rym ynghanol 2014. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y canllawiau statudol sydd eu hangen er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith. O dan y Ddeddf mae'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol Cymru fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, ac adeiladu seilwaith cerdded a beicio a'i wella bob blwyddyn. Mae'n rhoi dyletswyddau newydd i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwneud gwell darpariaeth ar eu cyfer. Trwy gysylltu safleoedd allweddol fel manau gweithio, ysbytai, ysgolion a manau siopa â llwybrau teithio llesol, bydd y Ddeddf yn annog pobl i ddibynnu llai ar eu car wrth wneud teithiau byr. I baratoi at hyn, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi comisiynu Capital plc (busnes eiddo a seilwaith arbenigol) i greu Strategaeth Cerdded a Beicio ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn unol â gofynion y Ddeddf Teithio Llesol.</p> | |
| <p>Eitem 12 - Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar ran Eirian James dywedodd JT fod CSC wedi cyflawni'r prosiectau gwella canlynol yn 2013/14 <ul style="list-style-type: none"> - Pont y Brenin (pont siglo), Llandeilo a llwybrau cerdded cymunedol. £70,000 o'r Cynllun Datblygu Gwledig. - Llwybr Glan yr Afon a safle picnic, Castellnewydd Emlyn - gwella ac estyn y llwybr presennol ar lan yr afon - £65,800 o Gronfa Canolbwyntiau Gwledig Nodedig, y Cynllun Datblygu Gwledig - Mae taflenni teithiau cerdded sirol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Talacharn, | |

| | |
|------------------------------------|--|
| Llangrannog a Chastellnewydd Emlyn | |
|------------------------------------|--|

| | |
|--|--|
| Eitem 13 - Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf | |
|--|--|

| | |
|--|--|
| Cytunwyd ar ddyddiadau'r cyfarfod nesaf a chyfarfodydd yn y dyfodol: | |
|--|--|

| | |
|--|--|
| 6pm ddydd Iau 20 Chwefror 2014 – y man cynnal i'w gyhoeddi | |
|--|--|